# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Practis Deintyddol yr Hen Orsaf, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Dyddiad yr arolygiad: 30 Ionawr 2018

Dyddiad cyhoeddi: 1 Mai 2018

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Y Rheolwr Cyfathrebu**

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**

**Parc Busnes Rhyd-y-car**

**Merthyr Tudful**

**CF48 1UZ**


Neu drwy


| | |
|---|---|
| **Ffôn:** | **0300 062 8163** |
| **E-bost:** | **hiw@gov.wales** |
| **Ffacs:** | **0300 062 8387** |
| **Gwefan:** | **www.agic.org.uk** |



ISBN Digidol 978-1-78903-983-2



© Hawlfraint y Goron 2018

## Cynnwys


1. Yr hyn a wnaethom ........ 5

2. Crynodeb o'n harolygiad ........ 6

3. Yr hyn a ganfuom ........ 8

   Ansawdd profiad y claf ........ 9

   Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol ........ 13

   Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth ........ 19

4. Beth nesaf? ........ 21

5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol ........ 22

   Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad ........ 23

   Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith ........ 24

   Atodiad C – Cynllun gwella ........ 25

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r corff annibynnol sy'n arolygu ac yn rheoleiddio gofal iechyd yng Nghymru**

# Ein diben

**Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.**

# Ein gwerthoedd

- **Canolbwyntio ar y claf: rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud**
- **Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest**
- **Annibynnol: rydym yn gweithredu a gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn**
- **Cydweithredol: rydym yn datblygu partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol**
- **Proffesiynol: mae ein dull gweithredu yn effeithiol, effeithlon a chymesur**

# Ein blaenoriaethau

**Ein nod trwy ein gwaith yw:**

| | |
|---|---|
| **Darparu sicrwydd:** | **Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal.** |
| **Hybu gwelliant:** | **Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da.** |
| **Dylanwadu ar bolisi a safonau:** | **Defnyddio'r hyn yr ydym yn ei ddarganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.** |

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol yr Hen Orsaf yn yr Hen Orsaf, Bethesda, Gwynedd, o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, ar 30 Ionawr 2018.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys arolygydd AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Bu AGIC yn archwilio sut roedd y gwasanaeth yn bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal (2015) a chanllawiau perthnasol eraill.

Gellir gweld manylion pellach ynglŷn â'n dull o gynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

# 2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, canfuom dystiolaeth fod y gwasanaeth yn darparu gofal diogel ac effeithiol. Fodd bynnag, gwelsom beth tystiolaeth nad oedd y gwasanaeth yn cydymffurfio'n llwyr â'r holl Safonau Iechyd a Gofal ym mhob maes.

Canfuom fod cleifion yn cael eu trin â pharch a bod gan y practis brosesau priodol ar waith i sicrhau bod y cyfarpar yn ddiogel i'w ddefnyddio ac amrediad o bolisïau a gweithdrefnau i sicrhau bod y gofal yn cael ei ddarparu mewn modd diogel ac effeithiol.

Gwelsom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Dywedodd cleifion wrthym eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth a ddarperid
- Roedd y cyfarpar a'r ystafelloedd triniaeth yn lân, yn daclus, ac wedi'u cynnal a'u cadw'n dda yn gyffredinol
- Roedd dogfennau a gwybodaeth ar gael i ddangos bod cyfarpar pelydr-X a dadheintio yn cael ei ddefnyddio gyda'r nod o hyrwyddo diogelwch y staff a'r cleifion
- Roedd gan staff fynediad da at hyfforddiant a chefnogaeth gan dîm ehangach y practis

Rydym yn argymell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Aildrefnu'r ystafell ddadheintio er mwyn gwella'r llif aer a'r broses ddadheintio

- Cynnal archwiliadau rheoli heintiau gan ddefnyddio dull archwilio Deoniaeth Cymru[1]
- Cynnal gwiriadau dyddiol o'r cywasgydd a chofnodi canfyddiadau
- Enwebu swyddog cymorth cyntaf sydd wedi'i hyfforddi'n gymwys
- Disodli'r pecyn gollyngiadau mercwri gydag un newydd
- Sicrhau bod y cleifion yn cydlofnodi ffurflenni hanes meddygol
- Dadnatureiddio[2] cyffuriau a reolir a chynnal cofnod gwaredu

---

[1] Sefydliad yw Deoniaeth Cymru sy'n gweithio mewn partneriaeth â byrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau GIG yng Nghymru, gan ddarparu cyfleusterau addysgol ym maes meddygaeth a deintyddiaeth ac arwain ar ymchwil addysg.

[2] Proses sy'n galluogi practisau deintyddol a mannau tebyg eraill i gydymffurfio â gofynion Rheoliadau Camddefnyddio Cyffuriau 2001 drwy wneud cyffuriau a reolir yn anaddas i'w cymryd.

# 3. Yr hyn a ganfuom

## Cefndir y gwasanaeth

Mae Practis Deintyddol yr Hen Orsaf yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Bethesda, Gwynedd. Mae'r practis yn rhan o Wasanaethau Deintyddol Cymunedol Gogledd Cymru, a reolir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Mae gan y practis dîm staff sy'n cynnwys un deintydd, therapydd deintyddol, dwy nyrs ddeintyddol, a gweithiwr cymorth gofal iechyd.

Mae'r practis yn darparu gwasanaethau deintyddol cyffredinol y GIG yn unig.

## Ansawdd profiad y claf

*Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Ar y cyfan, canfuom fod staff y practis yn gweithio'n galed i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel a phrofiad cadarnhaol ar gyfer cleifion.

Gwelsom fod y cleifion yn cael eu trin ag urddas, parch a chwrteisi gan dîm y practis. Roedd y cleifion a roddodd sylwadau yn nodi eu bod yn fodlon iawn ar y gwasanaeth a ddarperid gan y practis.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion, er mwyn cael eu barn ar y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Gwnaethom dderbyn cyfanswm o 20 holiadur wedi'u cwblhau. Cafodd y rhan fwyaf o'r holiaduron eu cwblhau gan gleifion hirdymor yn y practis (y rhai a oedd wedi bod yn gleifion gyda'r practis ers dros ddwy flynedd).

Ar y cyfan, roedd yr adborth gan gleifion yn yr holiaduron yn gadarnhaol ynghylch y gofal a'r driniaeth a ddarperid yn y practis deintyddol. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys y canlynol:

“Gofal a thriniaeth ardderchog yn cael eu rhoi yn y ddeintyddfa hon."

“Y practis deintyddol hwn wedi creu argraff dda iawn; mae'r staff yn gwrtais ac yn foesgar. Mae'r deintydd a'r therapyddion deintyddol hefyd yn fedrus iawn."

“Rwy'n hapus iawn gyda'r gwasanaeth a ddarperir yn y ddeintyddfa hon.”

Gofynnwyd i'r cleifion yn yr holiaduron sut y gallai'r practis deintyddol wella'r gwasanaeth a ddarperir ganddo. Atebodd nifer o'r cleifion y cwestiwn hwn drwy ddweud wrthym nad oedd digon o ddeintyddion yn gweithio yn y practis ar hyn o bryd, a oedd yn cael effaith ar amseroedd aros ar gyfer apwyntiadau. Roedd rhai o'r sylwadau a gafwyd gan gleifion yn yr holiaduron ynglŷn â'r broblem hon yn cynnwys:

"Drwy gael mwy o ddeintyddion – mae cael un yn hurt ac mae hyd yn oed archwiliadau deintyddol cyffredinol ymhell, pell y tu ôl i'r amseroedd cywir."

"Trwy gyflogi mwy o ddeintyddion."

"Weithiau mae'n rhaid aros yn hirach am driniaeth nag sy'n ddelfrydol."

Trafodwyd hyn gyda'r tîm rheoli, a ddywedodd fod y bwrdd iechyd wrthi'n recriwtio deintyddion ar adeg yr arolygiad.

## Cadw'n iach

Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur wrthym fod y tîm deintyddol wedi siarad â nhw ynghylch sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach.

Gwelsom fod gan y practis arlwy o daflenni hyrwyddo iechyd yn y man aros. Eu diben oedd hyrwyddo'r angen i gleifion ofalu am eu hiechyd a'u hylendid ceg eu hunain.

Roedd arwyddion 'dim ysmygu' drwyddi draw yn y practis, a oedd yn cadarnhau bod pwyslais ar gydymffurfio â deddfwriaeth eiddo di-fwg.

## Gofal ag urddas

Roedd y staff yn dîm bach a chyfeillgar a gwelsom eu bod yn rhyngweithio â chleifion mewn modd cwrtais yn ystod sgyrsiau dros y ffôn ac wrth ddesg y dderbynfa.

Heb eithriad, roedd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur yn teimlo eu bod wedi cael eu trin â pharch wrth ymweld â'r practis. Roedd sylwadau a roddwyd gan y cleifion yn yr holiaduron yn canmol y staff yn cynnwys y canlynol:

"Mae'r staff bob amser yn ddymunol ac ystyriol, gan fod yn barod i ateb cwestiynau, ac maent yn darparu gwasanaeth rhagorol. Diolch."

"Staff cyfeillgar a chwrtais iawn. Bob amser yn barod i helpu."

Cadarnhaodd y staff eu bod yn gallu rhoi preifatrwydd i gleifion drafod gwybodaeth bersonol neu gyfrinachol gyda'r tîm deintyddol, o glyw'r cleifion eraill.

### Gwybodaeth i gleifion

Dywedodd bron pob claf a gwblhaodd holiadur wrthym ei fod yn teimlo'n rhan o'r penderfyniadau a wneir ynghylch ei driniaeth i'r graddau yr oedd yn dymuno, a dywedodd wrthym ei fod wedi cael gwybodaeth glir am yr opsiynau triniaeth a oedd ar gael iddo.

Dywedodd y rhan fwyaf o gleifion a oedd wedi cael triniaeth yn y practis yn yr holiaduron fod cost eu triniaeth bob amser yn cael ei hesbonio'n glir iddynt. Fodd bynnag, dywedodd bron i draean o'r cleifion hyn wrthym nad oeddent yn deall sut y cyfrifwyd cost eu triniaeth.

Roedd gwybodaeth am gostau cyffredinol triniaeth ar gael yn y dderbynfa ac roedd wedi'i nodi yn y daflen wybodaeth i gleifion. Roedd y cleifion yn derbyn gwybodaeth glir am brisiau penodol yn ymwneud â chynlluniau triniaeth unigol. Roedd hyn yn golygu bod cleifion yn gwybod faint y gallai eu triniaeth gostio iddynt.

### Cyfathrebu'n effeithiol

Gwneid pob ymdrech i sicrhau bod y cleifion yn derbyn gwasanaeth yn eu hiaith ddewisol. Roedd staff sy’n siarad Cymraeg yn cael eu cyflogi yn y practis ac roedd modd cael mynediad at wasanaeth cyfieithu os oedd angen.

Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur wrthym (gan gynnwys siaradwyr Cymraeg a rhai nad oeddent yn siaradwyr Cymraeg) eu bod yn gallu siarad â staff yn eu hiaith ddewisol bob amser.

## Gofal amserol

Canfuom fod y practis yn gwneud ymdrechion i sicrhau bod cleifion yn cael eu gweld yn brydlon. Disgrifiodd y staff broses ar gyfer rhoi gwybod i gleifion am unrhyw oedi i'w hamserau apwyntiad a gwelsom bolisi gan y practis i gefnogi'r trefniant hwn.

Dywedodd y rhan fwyaf o gleifion a gwblhaodd holiadur y byddent yn gwybod sut i gael mynediad at y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe byddai problem ddeintyddol frys ganddynt.

Roedd rhif ffôn y tu allan i oriau ar gael i gleifion pe bai angen triniaeth ddeintyddol frys arnynt y tu allan i oriau. Roedd y rhif ffôn wedi'i arddangos yn y dderbynfa/man aros ac roedd wedi'i gynnwys yn y daflen wybodaeth i gleifion.

## Gofal unigol

### Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion y cleifion a chanfod eu bod wedi'u cynnal a'u cadw'n dda. Roedd yr holl opsiynau triniaeth yn cael eu cofnodi a chafwyd caniatâd gan bob claf ynghylch triniaeth.

Gwnaeth yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur gadarnhau bod y deintydd yn holi am eu hanes meddygol cyn ymgymryd ag unrhyw driniaeth.

Roedd hanes meddygol cleifion yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru yn ystod pob ymweliad.

### Hawliau pobl

Roedd dwy ystafell driniaeth yn cael eu defnyddio gan y practis, y ddwy ohonynt ar y llawr daear.

Canfuom fod y mynediad i'r practis yn dda, gyda mannau parcio penodedig i bobl ag anabledd.

Roedd toiledau â mynediad da ar gael i gleifion eu defnyddio.

### Gwrando a dysgu o adborth

Dywedodd chwech o'r 20 o gleifion a gwblhaodd holiadur wrthym nad oeddent yn gwybod sut i wneud cwyn neu fynegi pryder ynghylch y gwasanaethau maent yn eu derbyn yn y practis deintyddol, pe bai angen gwneud hynny.

Gwelsom fod gan y practis weithdrefn gwyno ysgrifenedig. Roedd gwybodaeth i gleifion am sut i leisio pryder neu gŵyn wedi'i harddangos yn y dderbynfa ac wedi'i chynnwys yn y daflen wybodaeth i gleifion ac ar wefan y practis.

Cawsom wybod bod y practis yn derbyn ychydig iawn o gwynion ac yr ymdrinnir â hwy wrth eu gwraidd lle y bo'n briodol. Roedd cofnod o gwynion yn cael ei gynnal a'i gadw. Roedd hyn yn galluogi staff i fonitro a mynd i'r afael ag unrhyw themâu neu dueddiadau cyffredin yn y cwynion roeddent yn eu derbyn.

Dywedodd bron i hanner o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym nad oeddent yn ymwybodol o'r practis deintyddol yn gofyn am eu safbwyntiau am y gwasanaeth a ddarperir yno – er enghraifft, drwy holiaduron i gleifion.

## Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

*Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy’n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Canfuom fod y practis yn darparu gofal diogel ac effeithiol i’r cleifion. Roedd safle’r practis yn amlwg wedi ei gynnal mewn cyflwr da, yn fewnol ac yn allanol.

Dangoswyd proses drwyadl ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol.

Roedd dogfennau a gwybodaeth ar gael i ddangos bod cyfarpar pelydr-X a dadheintio yn cael ei ddefnyddio’n ddiogel.

### Gofal diogel

#### Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Gwelsom fod trefniadau ar waith i amddiffyn diogelwch a lles y staff sy'n gweithio yn y practis a'r bobl sy'n ymweld â'r practis. Canfuom fod y practis wedi cael ei gynnal a'i gadw'n dda y tu mewn a'r tu allan a bod yr ystafelloedd triniaeth yn lân, yn daclus ac yn drefnus. Ni chodwyd unrhyw bryderon gan gleifion ynghylch glendid y practis; roedd bron pob claf a gwblhaodd holiadur yn teimlo bod y practis deintyddol yn lân iawn.

Roedd cyfarpar diogelwch tân ar gael mewn lleoliadau amrywiol o amgylch y practis a gwelsom fod hwn wedi cael ei wasanaethu dros y 12 mis diwethaf i sicrhau ei fod yn gweithio'n gywir.

Cynhaliwyd profion dyfeisiau cludadwy ar gyfarpar trydanol yn ystod y 12 mis diwethaf yn unol ag argymhellion yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.[3]

Gwelsom fod trefniadau addas ar waith ar gyfer cludo a gwaredu gwastraff peryglus (clinigol) a gynhyrchwyd gan y practis yn ddiogel. Gwelsom fod gwastraff peryglus yn cael ei storio'n ddiogel mewn ardal amgaeedig wrth aros i gael ei gasglu gan gwmni'r contractwr. Roedd gwastraff nad yw'n beryglus (gwastraff domestig) yn cael ei gasglu trwy drefniadau â chwmni preifat.

### Atal a rheoli heintiau

Roedd gan y practis ystafell ddadheintio bwrpasol. Fodd bynnag, nid oedd hon yn bodloni'r egwyddorion a amlinellwyd yn nogfen polisi a chyfarwyddyd Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (Diwygiad 1).[4] Er nad oedd yn cael ei defnyddio ar adeg yr arolygiad, canfuom y gallai lleoliad y ffan echdynnu arwain at aer halogedig yn cael ei dynnu o ochr fudr yr ystafell ddadheintio i'r ochr lân. Canfuom hefyd fod y peiriannau awtoclaf yn rhy agos at y sinc sgwrio ac nad oedd unrhyw le i roi'r offer oedd wedi'u golchi y tu hwnt i'r peiriannau awtoclaf. Roedd hefyd angen ailosod y lamp arolygu ger y man glanhau â llaw.

Roedd yr offer dadheintio a'r cypyrddau yn yr ystafell ddadheintio i'w gweld mewn cyflwr da. Roedd arwynebau gwaith a'r llawr yn hawdd eu glanhau er mwyn hwyluso glanhau trwyadl a lleihau croes-heintio.

Roedd gan y practis ddefnydd o ddau awtoclaf[5] a gwelsom dystysgrif arolygu i ddangos eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Gwelsom fod gwiriadau dyddiol yn

---

[3] http://www.hse.gov.uk/pubns/books/hsg107.htm

[4] Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05) (Diwygiad 1) yn darparu canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddadheintio mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

[5] Siambr pwysedd yw peiriant awtoclaf a ddefnyddir i sterileiddio offer a chyflenwadau trwy orfodi ager dirlawn pwysedd uchel arnynt.

cael eu cynnal a bod llyfrau cofnodion yn cael eu cadw, fel yr argymhellir gan Femorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, ar gyfer profion ar offer glanhau a sterileiddio, i ddangos eu bod yn parhau i fod yn ddiogel i'w defnyddio.

Dangosodd y staff broses ddadheintio drylwyr, a gwelsom dystysgrifau i ddangos bod y staff wedi mynychu hyfforddiant ar ddadheintio.

Roedd yr offer yn cael eu storio'n briodol i atal croes-heintio. Roedd y dyddiadau yr oedd angen defnyddio neu ailbrosesu offer yn eu herbyn (glanhau a sterileiddio) wedi'u cofnodi yn unol â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.

Roedd archwiliad rheoli heintiau wedi'i gynnal yn 2007 gan ddefnyddio dull arolygu'r Gymdeithas Atal Heintiau. Gwnaethom argymell y dylid defnyddio dull arolygu Deoniaeth Cymru yn y dyfodol yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.

Canfuom fod angen disodli'r sinc golchi dwylo gydag un sy’n fwy a gosod cefnfwrdd priodol.

Gwelsom fod mop â chod lliw gwyrdd yn cael ei ddefnyddio i lanhau lloriau'r ystafelloedd triniaeth. Dylid defnyddio mop â chod lliw melyn ar gyfer y diben hwn, yn unol â chanllawiau codau lliw offer glanhau yr Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion.

Canfuom fod dyddiad y pecyn gollyngiadau mercwri wedi dod i ben.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Dylid symud y ffan echdynnu yn yr ystafell ddadheintio er mwyn sicrhau llif awyr priodol.

Dylid symud y peiriannau awtoclaf i ffwrdd o'r sinc sgwrio, a darparu lle i osod offer sydd wedi'u glanhau y tu hwnt i'r peiriannau awtoclaf.

Dylid ailosod y lamp arolygu ger y man golchi â llaw.

Dylid defnyddio dull Deoniaeth Cymru i archwilio'r trefniadau rheoli heintiau.

Dylid disodli'r sinc golchi dwylo gydag un sy’n fwy a gosod cefnfwrdd priodol.

Dylid defnyddio mop â chod lliw melyn i olchi llawr yr ystafell driniaeth, yn unol â chanllawiau codau lliw offer glanhau yr Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion.

Dylid disodli'r pecyn gollyngiadau mercwri gydag un newydd.

## Rheoli meddyginiaethau

Gwelsom fod cyfarpar a chyffuriau ar gael i’w defnyddio pe bai argyfwng gyda chlaf (llewygu). Gwelsom gofnodion a oedd yn dangos bod y cyffuriau mewn argyfwng wedi'u gwirio'n rheolaidd a'u bod o fewn eu dyddiadau dod i ben.

Cawsom wybod bod meddyginiaeth heb ei defnyddio'n cael ei dychwelyd i'r fferyllfa. Fodd bynnag, gwnaethom argymell y dylid dadnatureiddio’r cyffur midazolam cyn ei ddychwelyd i'r fferyllfa, ac y dylid cael nodyn trosglwyddo ar gyfer pob meddyginiaeth a ddychwelwyd.

Llwyddom i weld cofnodion a oedd yn dangos bod yr holl staff wedi cwblhau hyfforddiant ar ddadebru cardio-pwlmonaidd. Fodd bynnag, nid oedd swyddog cymorth cyntaf dynodedig yn y practis. Dywedwyd wrthym, pe bai argyfwng meddygol, y byddai cymorth yn cael ei geisio gan y staff yn y practis meddyg teulu cyfagos a leolir yn yr un adeilad â'r practis deintyddol.

Gwelsom nad oedd mygydau wyneb clir ar gyfer y bag Ambu yn y pecyn dadebru. Tynnwyd hyn yn syth at sylw'r uwch-nyrs ddeintyddol, a archebodd yr offer. Darparwyd tystiolaeth ysgrifenedig i ni fod yr offer wedi'u harchebu.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Dylid dadnatureiddio’r cyffur midazolam cyn ei ddychwelyd i'r fferyllfa, a dylid cael nodyn trosglwyddo ar gyfer pob meddyginiaeth a ddychwelwyd.

Dylid enwebu swyddog cymorth cyntaf sydd wedi'i hyfforddi'n addas ar gyfer y practis.

## Diogelu plant ac oedolion mewn perygl

Roedd gan y practis weithdrefn ar waith i hyrwyddo a diogelu lles plant ac oedolion sy’n agored i niwed neu sydd mewn perygl. Roedd y cofnodion hyfforddiant yn dangos bod yr holl staff wedi cwblhau hyfforddiant hyd at Lefel 2 ar ddiogelu plant ac oedolion.

Roedd gan y practis bolisi ar waith yn nodi'n fanwl y camau i'w cymryd, a'r sefydliadau perthnasol i gysylltu â nhw, petai gan y staff unrhyw bryderon diogelu.

### Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwnaethom edrych ar yr holl gyfleusterau clinigol (ystafelloedd triniaeth) yn y practis, gan nodi eu bod yn lân ac yn daclus ac yn cael eu cynnal a'u cadw at safon uchel ar y cyfan. Roedd yn hawdd glanhau arwynebau yn yr ystafelloedd triniaeth i leihau croes-heintio.

Daethom i'r casgliad fod gan y practis drefniadau ar waith i ddefnyddio offer radiograffig (pelydr-X) yn ddiogel. Mae hyn am fod y dogfennau a'r wybodaeth ofynnol ynglŷn â defnyddio'r offer pelydr-X yn ddiogel ar gael ac yn gyfredol. Gwelsom gofnodion hyfforddiant yn dangos bod hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio'r staff clinigol perthnasol yn gyfredol a'u bod yn bodloni canllawiau a nodir gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Argymhellwyd gennym fod y cywasgydd yn cael ei wirio bob dydd a bod cofnod ysgrifenedig o'r canfyddiadau'n cael ei gynnal.

Dywedodd y staff wrthym y byddent yn elwa ar gael driliau deintyddol â llaw ychwanegol sy'n gallu mynd ar gyflymder uchel ac isel.

Gwnaethom atgoffa'r practis fod angen cofrestru gyda'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, o dan Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, cyn 6 Chwefror 2018.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylid cynnal gwiriadau bob dydd ar y cywasgydd a chynnal cofnod ysgrifenedig o'r canfyddiadau.

Dylid darparu driliau deintyddol â llaw ychwanegol sy'n gallu mynd ar gyflymder uchel ac isel.

## Gofal effeithiol

### Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd y practis yn cynnal amrediad o archwiliadau i fonitro ansawdd a diogelwch y gofal a'r driniaeth a ddarperir i gleifion. Roedd y rhain yn cynnwys archwiliadau rheoli heintiau, archwiliadau o'r ystafelloedd triniaeth a chael

adborth cleifion er mwyn helpu i nodi meysydd i'w gwella a gwiriadau ar offer er mwyn sicrhau eu bod yn gweithio'n effeithiol.

### Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Roedd archwiliadau adolygu gan gymheiriaid yn cael eu cynnal yn rheolaidd.

Gwelsom dystiolaeth fod y practis yn defnyddio dulliau hunanwerthuso fel archwiliadau ac asesiadau o anghenion hyfforddi i alluogi'r tîm deintyddol i ganolbwyntio ar sut maen nhw'n gweithio ac i ystyried gwelliannau i ansawdd y gofal a ddarperir mewn meysydd amrywiol.

### Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd cofnodion cleifion yn cael eu storio a'u cynnal ar bapur. Gwelsom fod prosesau addas ar waith i sicrhau diogelwch gwybodaeth.

### Cadw cofnodion

Roedd tystiolaeth fod y practis yn cadw cofnodion clinigol da iawn, gan ddangos bod gofal yn cael ei gynllunio a'i ddarparu i safon dda er mwyn sicrhau diogelwch a lles cleifion.

Gwnaethom archwilio sampl o gofnodion cleifion a gweld bod y cofnodion yn cynnwys digon o wybodaeth ynghylch hanes meddygol; trafodaethau a gynhaliwyd ynghylch opsiynau triniaeth, costau, risgiau a buddion; a sut y cafwyd caniatâd cleifion. Roedd y deintydd yn cofnodi bod sgrinio am ganser wedi cael ei gynnal ac y rhoddwyd cyngor ynglŷn â rhoi'r gorau i ysmygu.

Canfuom dystiolaeth yn y dogfennau a welsom yn awgrymu bod cleifion yn gwirio eu ffurflenni hanes meddygol eu hunain. Gwnaethom argymell y dylid gofyn i gleifion lofnodi'r ffurflenni i gadarnhau eu bod wedi eu darllen a bod y wybodaeth yn gywir.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylid gofyn i gleifion lofnodi ffurflenni hanes meddygol i gadarnhau eu bod wedi eu gwirio a bod y wybodaeth yn gywir.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi darparu gofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain ochr yn ochr â'r Safonau Iechyd a Gofal.*

Gwelsom fod gan y practis arweinyddiaeth dda iawn a llinellau atebolrwydd clir.

Roedd y practis yn cael ei reoli gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Gwelsom fod arlwy o bolisïau perthnasol ar waith gyda'r nod o sicrhau diogelwch staff a chleifion.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan uwch-aelodau o staff a'u cydweithwyr. Gwnaethant hefyd ddweud wrthym eu bod yn cael cyfleoedd i fynychu hyfforddiant perthnasol.

### Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Mae Practis Deintyddol yr Hen Orsaf yn rhan o Wasanaethau Deintyddol Cymunedol Gogledd Cymru, sy'n cael eu rheoli gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Roedd dirprwy gyfarwyddwr clinigol / deintydd rheolaethol ac uwch-nyrs ddeintyddol y bwrdd iechyd yn y practis yn ystod yr arolygiad.

Gwelsom fod y tîm rheoli a thîm y practis yn drefnus ac yn rhagweithiol yn eu hymagwedd at reoli'r practis. Lle y gwnaethom nodi meysydd i'w gwella, dangosodd y tîm rheoli a thîm y practis barodrwydd ac ymroddiad i fynd i'r afael â'r rhain yn brydlon.

Gwelsom fod y staff yn bendant ac yn wybodus ynghylch eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau. Dywedodd staff wrthym eu bod yn teimlo bod tîm y practis yn cyfathrebu'n dda ymhlith ei gilydd. Gwelsom fod digwyddiadau hyfforddiant mewnol yn cael eu cynnal yn rheolaidd. Roedd trafodaethau staff anffurfiol yn cael eu cynnal bob dydd. Roedd cyfarfodydd tîm hefyd yn cael eu cynnal.

Gwelsom fod amrediad cynhwysfawr o bolisïau a gweithdrefnau ar waith gyda'r nod o sicrhau diogelwch staff a chleifion.

## Staff ac adnoddau

### Gweithlu

Gwelsom fod proses recriwtio staff ffurfiol ar waith ac yr ymgymerwyd â gwiriadau cefndir cyn i weithwyr ddechrau yn eu swyddi.

Roedd cofnodion yn dangos bod staff wedi mynychu hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau sy'n berthnasol i'w rolau. Gwnaeth y staff gadarnhau hefyd eu bod yn cael eu cefnogi a'u hannog gan y tîm rheoli i fanteisio ar gyfleoedd hyfforddi.

Roedd y cofnodion yn dangos bod y staff yn derbyn arfarniad blynyddol o'u perfformiad.

Gwelsom fod y deintydd a'r staff nyrsio wedi'u cofrestru i weithio gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a bod ganddynt yswiriant indemniad ar waith.

Roedd cofnodion ar gael a oedd yn dangos bod y staff wedi eu himiwneiddio rhag hepatitis B, er mwyn amddiffyn cleifion a hwythau rhag cael eu heintio.

Gwelsom wiriadau cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer yr holl staff clinigol sy’n gweithio yn y practis.

# 4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae’r rhain wedi'u manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a uwchgyfeiriwyd ac a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn nodi bod angen i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella yn ein hysbysu o'r camau y mae’n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau’n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi derbyn sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# 5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Mae arolygiadau deintyddol fel arfer yn rhai lle rhoddir rhybudd. Mae practisau deintyddol yn derbyn o leiaf 12 wythnos o rybudd ymlaen llaw ynglŷn ag arolygiad. Mae hyn er mwyn rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod y practis yn rhedeg yn unol â'r arfer, a bod yr arolygiad yn amharu ar gleifion cyn lleied ag y bo modd.

Mae adborth yn cael ei ddarparu i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Rydym yn gwirio sut mae practisau deintyddol yn bodloni Safonau Iechyd a Gofal 2015. Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011. Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir gwybodaeth bellach am sut mae AGIC yn arolygu practisau deintyddol a'r GIG ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod yr arolygiad. Oherwydd yr effaith (bosibl) ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion | Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| Canfuom nad oedd mygydau wyneb clir meintiau 0, 1, 2, 3 a 4 i ffitio'r bag Ambu yn y pecyn dadebru. | Roedd hyn yn golygu bod mwy o berygl o niwed i gleifion mewn argyfwng. | Tynnwyd sylw'r uwch-nyrs ddeintyddol at hyn. | Archebwyd y mygydau gan yr uwch-nyrs ddeintyddol. Darparwyd copi inni o'r cadarnhad archebu fel tystiolaeth eu bod wedi'u harchebu. |

## Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

## Gwasanaeth: Practis Deintyddol yr Hen Orsaf

## Dyddiad yr arolygiad: 30 Ionawr 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd.

| Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Nid oedd angen cynllun gwella ar unwaith. | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

### Cynrychiolydd y gwasanaeth:

### Enw (llythrennau bras):

### Swydd:

### Dyddiad:

# Atodiad C – Cynllun gwella

## Gwasanaeth: Practis Deintyddol yr Hen Orsaf

## Dyddiad yr arolygiad: 30 Ionawr 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd profiad y claf** | | | | |
| Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella. | | | | |
| **Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol** | | | | |
| Dylid symud y ffan echdynnu yn yr ystafell ddadheintio er mwyn sicrhau llif aer priodol. | 2.4 Atal a rheoli heintiau a dadheintio | Adroddwyd i adran yr ystadau deintyddol. | SM/MD | Chwe mis |
| Dylid symud y peiriannau awtoclaf i ffwrdd o'r sinc sgwrio a darparu lle i osod offer sydd wedi'u glanhau y tu hwnt i'r peiriannau awtoclaf. | Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 | Fel yr uchod | SM/MD | Chwe mis |
| Dylid ailosod y lamp arolygu ger y man glanhau â llaw. | | Fel yr uchod | SM/MD | Chwe mis |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Dylid defnyddio dull Deoniaeth Cymru i archwilio'r trefniadau rheoli heintiau. | | Cwblhawyd | SM/MD | Ar unwaith |
| Dylid disodli'r sinc golchi dwylo gydag un sy'n fwy a gosod cefnfwrdd priodol. | | Hysbyswyd cyfarwyddwr y Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol a rheolwr yr ystadau deintyddol. | SM/MD | Chwe mis |
| Dylid defnyddio mop â chod lliw melyn i olchi llawr yr ystafelloedd triniaeth, yn unol â chanllawiau codau lliw offer glanhau yr Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion. | | Hysbyswyd staff domestig y practis meddyg teulu oherwydd nad ydynt yn cael eu cyflogi gan Wasanaethau Deintyddol Cymunedol Gogledd Cymru. | SM/MD | Cyn gynted â phosib |
| Dylid disodli'r pecyn gollyngiadau mercwri gydag un newydd. | | Archebwyd pecyn newydd ar ddiwrnod yr arolygiad. Mae'r hen becyn gollyngiadau mercwri bellach wedi'i ddisodli. | SM/MD | Ar unwaith |
| Dylid dadnatureiddio'r cyffur midazolam cyn ei ddychwelyd i'r fferyllfa, a dylid cael nodyn trosglwyddo ar gyfer pob meddyginiaeth a ddychwelwyd. | 2.6 Rheoli meddyginiaethau | Protocol bellach ar waith | SM/MD | Ar unwaith |
| Dylid enwebu swyddog cymorth cyntaf sydd wedi'i hyfforddi'n addas ar gyfer y practis. | | Mae'r nyrs ddeintyddol ddynodedig wedi'i hyfforddi i safon cynnal bywyd | SM/MD | Ar unwaith |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | | canolraddol. | | |
| Dylid cynnal gwiriadau bob dydd ar y cywasgydd a chynnal cofnod ysgrifenedig o'r canfyddiadau. | 2.8 Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol | Protocol ar waith. Cofnodion yn cael eu gwneud bob dydd gan staff sydd wedi'u hyfforddi. | SM/MD | Ar unwaith |
| Dylid darparu driliau deintyddol â llaw ychwanegol sy'n gallu mynd ar gyflymder uchel ac isel. | | Mae offer llaw wedi cael eu harchebu'n ddiweddar. | SM/MD | 30 Ebrill 2018 |
| Dylid gofyn i gleifion lofnodi ffurflenni hanes meddygol er mwyn cadarnhau eu bod wedi eu gwirio a bod y wybodaeth yn gywir. | 3.5 Cadw cofnodion | Mae protocol wedi'i roi ar waith er mwyn i ddeintyddion lofnodi ffurflenni hanes meddygol ar ôl i'r cleifion eu cwblhau a'u llofnodi. | SM/MD | Ar unwaith |
| **Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth** | | | | |
| Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella. | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth

## Enw (llythrennau bras): Stuart Mawson

**Swydd: Dirprwy Gyfarwyddwr Clinigol / Arweinydd y Gwasanaeth Deintyddol Personol**

**Dyddiad: 16 Ebrill 2018**